24 Ebrill 2023

Annwyl Riant/Gwarcheidwaid,

**Asesiadau Personol Llythrennedd a Rhifedd (ar-lein)**

Ysgrifennwn atoch i hysbysu bydd disgyblion blwyddyn 7 yn cwblhau asesiadau personol llythrennedd a rhifedd ar-lein yr wythnos nesaf (2il i 5ed o Fai). Mae'r asesiadau yma yn ffocysu ar fedrau llythrennedd a rhifedd, a bydd pob disgybl yn cwblhau 4 asesiad ar-lein yn y meysydd canlynol:

- Cymraeg (darllen)
- Mathemateg: Asesiad gweithdrefnol ac asesiad rhesymu
- Saesneg (darllen)

Bydd disgyblion yn cael cyfle i ymarfer y math o gwestiynau yn ystod eu gwersi yr wythnos hon.

Gweler rhagor o fanylion ar wefan llywodraeth Cymru: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/asesiadau-darllen-a-rhifedd/asesiadau-personol-gwybodaeth-i-rieni-a-gofalwyr/

Mae'r fideo yma hefyd yn crynhoi pwrpas a diben yr asesiadau yma:
https://www.youtube.com/watch?v=M187gJQ4Jeg

Hoffwn bwysleisio nad oes angen i ddisgyblion bryderu am yr asesiadau yma, ond wrth gwrs, anogwn i bawb ymgyfarwyddo â'r deunydd paratoi. Gellir cael mynediad at rain wrth fewngofnodi i Hwb a chlicio ar 'Asesiadau Personol'.

Bydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn y gefnogaeth briodol (ac amser ychwanegol os yn gymwys) fel rhan o'r asesiadau yma. Cofiwch fod yr asesiadau yma yn rhan o fesuriadau cenedlaethol eich plentyn, felly anogwn eu bod yn cymryd o ddifrif ac yn rhoi o'u gorau glas.

Plîs cysylltwch â minnau os hoffech wybodaeth bellach drwy ShawC36@hwbcymru.net neu fanylion cyswllt yr ysgol isod.

Yn gywir,

Mr Chris Shaw (Pennaeth Cynorthwyol)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies